## Eich ymateb

| Cwestiwn | Eich ymateb |
|---|---|
| **1a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am ryw a rhywedd?**<br>**1b) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â rhyw a rhywedd er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?**<br>**1c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n** | Cyfrinachol? – N<br><br>1a) Nid o reidrwydd, ond mae gen i sylwadau.<br><br>1b) Byswn yn ffafrio osgoi'r defnydd o 'arall/other' er mwyn cwmpasu rhyweddau megis anneuaidd a rhyngrywiol, fel sy'n digwydd yn bresennol.<br><br>Byddai'n well gen i weld bod opsiynau fel anneuaidd, *gender-queer* ac intersex wedi'u rhestru yn benodol, a fod opsiwn i hunan-ddisgrifio yn ychwanegol i hynny.<br><br>Efallai bod lle hefyd i gynnwys 'menyw traws' a 'dyn traws' yma hefyd – nid pawb sydd â rhywedd sy'n wahanol i'r hyn a gofrestrwyd yn enedigol sy'n uniaethu fel person traws o reidrwydd (e.e os yw rhywun wedi ail-bennu rhywedd peth amser yn ôl). Nid yw hyn yn rhywbeth rydym yn gwneud ein hunain ar hyn o bryd.<br><br>1c) Dyma sut rydym ni'n casglu'r data yn bresennol:<br><br>Beth sy'n disgrifio eich rhywedd orau?<br>- Benyw / Female<br>- Gwryw / Male<br>- Anneuaidd / Non-binary<br>- Mae'n well gen i ddisgrifio fy hun<br>- Well gen i beidio dweud<br><br>A yw eich hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r hyn yr aseiniwyd i chi adeg eich genedigaeth?<br>- Ydy<br>- Nac ydy<br>- Well gen i beidio dweud |

| | |
|---|---|
| **casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am ryw a rhywedd ar hyn o bryd.** | |
| **2a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am rywioldeb? 2b) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?** | Cyfrinachol? N<br><br>2a) Nid o reidrwydd, ond mae gen i sylwadau.<br><br>2b) Yn debyg i'r uchod, byswn yn ffafrio osgoi'r defnydd o 'arall/other' fel sy'n digwydd yn bresennol.<br><br>Yn hytrach, byddai'n dda gweld cyfeiriad at e.e. panrywiol ac anrhywiol (asexual) yn ychwanegol i'r opsiynau presennol, ac hefyd 'mae'n well gen i hunan-ddisgrifio'.<br><br>2c) Dyma sut rydym yn casglu'r data yn bresennol:<br><br>Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?<br>- Heterorywiol<br>- Dyn hoyw<br>- Menyw hoyw / Lesbiaidd<br>- Deurywiol<br>- Panrywiol<br>- Anrhywiol<br>- Mae'n well gen i ddisgrifio fy hunan<br>- Well gen i beidio dweud |

| | |
|---|---|
| **2c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol ar hyn o bryd.** | |
| **3a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am hil ac ethnigrwydd?**<br>**3b) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â hil ac ethnigrwydd er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym** | Cyfrinachol? – N<br><br>3a) Nid o reidrwydd, ond mae gen i sylwadau.<br><br>3b) Mae'r mater yma'n un anodd. Mae'r ychwanegiad o genedligrwydd (e.e Cymreig) yn yr opsiwn 'gwyn' ond nid eraill yn peri gofid, ond er lles meincnodi mae'n synhwyrol fod y categorïau yn cyd-fynd â rhai'r ONS.<br><br>Mae rhoi opsiynau Dwyrain Canol/Tarddiad Arabaidd o dan 'arall' yn broblemus hefyd ond does gen i ddim o reidrwydd awgrym gwahanol.<br><br>3c) Rydym yn dilyn eich esiampl chi wrth gasglu'r data yma, heb law am gynnwys opsiwn i ddewis Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig a Chymreig yn benodol. e.e. y llynedd gofynnom ni (detholiad isod):<br><br>Unrhyw gefndir Cymysg / aml-ethnig arall Any other Mixed / Multiple ethnic background<br>Dwyrain Asiaidd / Dwyrain Asiaidd Prydeinig / Dwryain Asiaidd Cymreig East Asian / British East Asian / Welsh East Asian<br>Tseineaidd / Chinese<br>Unrhyw gefndir Dwyrain Asiaidd arall / Any other East Asian background<br>De Asiaidd / De Asiaidd Prydeinig / De Asiaidd CymreigSouth Asian / British South Asian / Welsh Sout<br>Indiaidd / Indian<br>Pacistanaidd / Pakistani |

| | |
|---|---|
| **maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant? 3c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am hil ac ethnigrwydd.** | Bangladeshaidd / Bangladeshi<br>Unrhyw gefndir De Asiaidd arall / Any other South Asian background<br>Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig / Du Cymraeg Black / African / Caribbean / Black British / Black Welsh<br>Affricanaidd / African |

| | |
|---|---|
| **4a) Ydych chi’n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae’n holi am anabledd?**<br>**4b) Os ydych chi, sut ydych chi’n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas ag anabledd er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?**<br>**4c) Os ydych chi’n ddarlledwr neu’n gorff arall sy’n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi’n gofyn cwestiynau am anabledd ar hyn o bryd.** | Cyfrinachol? – N<br><br>4a) Nid o reidrwydd, ond mae gen i sylwadau.<br><br>4b) Nid yw bawb sy’n awtistig yn ystyried eu hunain yn anabl, ac hefyd nid pawb sy’n Fyddar sy’n ystyried eu hunain yn anabl, felly efallai byddai rhai ddim yn ei nodi yma gyda’r ffurf presennol o’r cwestiynau. Wrth ystyried y model cymdeithasol, efallai y byddai’n well i gofyn beth cyflwr yr ymatebydd, yn hytrach na beth yw ei anabledd.<br><br>4c)<br><br>Ydych chi'n ystyried bod gyda chi anabledd, amhariad neu gyflwr?<br>- Ydw<br>- Nac ydw<br>- Well gen i beidio dweud<br><br>Beth yw natur eich anabledd, amhariad neu gyflwr? Gallwch ddewis mwy nag un.<br>- Anabledd synhwyrol (nam ar olwg / clyw)<br>- Anabledd corfforol / Cyhyrysgerbydol<br>- Iechyd meddwl<br>- Anableddau dysgu / gwybyddol<br>- Anableddau lluosog, hirdymor ac eraill<br>- Well gen i beidio dweud<br><br>Ydych chi'n ystyried eich hun yn Fyddar?<br>- Ydw<br>- Nac ydw<br>- Well gen i beidio dweud<br><br>Ydych chi'n ystyried eich hun yn niwroamrywiol?<br>- Ydw<br>- Nac ydw<br>- Well gen i beidio dweud<br><br>Os ydych, beth yw natur eich niwroamrywiaeth?<br>- Awtistiaeth neu Syndrom Asperger* |

| | |
|---|---|
| | - ADHD<br>- Dyslexia / Dyscalcula / Dyspraxia<br>- Arall<br>- Well gen i beidio dweud<br><br>* rydym yn nodi mewn canllaw sy'n cyd-fynd a'n arolwg staff ein bod yn cynnwys Syndrom Asperger yma gan fod rhai yn ei ddefnyddio o hyd gan taw dyna gawson nhw fel diagnosis, er nad yw'n cael ei ddefnyddio rhagor wrth rhoi diagnosis newydd. |
| **5a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am wybodaeth am gefnir economaidd-gymdeithasol?**<br>**5b) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â chefndir economaidd-gymdeithasol er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?**<br>**5c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am gefndir economaidd-gymdeithasol.** | Cyfrinachol? – N<br><br>5a) Byddai dda datblygu ffyrdd newydd o gasglu'r wybodaeth yma ond does gen i ddim mewnbwn/awgrym penodol ar sut i wneud hyn.<br><br>5b)<br><br>5c) Rydym yn defnyddio eich cwestiynau chi i gasglu'r data yma. |
| **6a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am brofiad rheoli a dyrchafiadau?**<br>**6b) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â phrofiad rheoli a dyrchafiadau er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?**<br>**6c) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y grwpiau swyddogaethau swyddi yn yr holiadur gweithlu?**<br>**6d) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid ein holiadur mewn perthynas â grwpiau swyddogaethau swyddi er mwyn ein helpu i adnabod tangynrychiolaeth yn well ym** | Cyfrinachol? – N<br><br>6a) Does gen i ddim barn penodol ar hwn.<br><br>6b) n/a<br><br>6c) n/a<br><br>6d) n/a<br><br>6e) Mae'r wybodaeth am ddyrchafiadau ac ati yn dod gan yr adran AD. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y strwythur o fewn S4C sydd yn eitha' fflat. Yn ogystal, mae'r trosiant ar lefel uwch yn isel. |

| | |
|---|---|
| **maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?**<br>**6e) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n dosbarthu mathau o swyddi / lefel swyddi / dyrchafiadau ar hyn o bryd.** | Mae gweddill y data yn cael ei gasglu gyda'r cwestiynau canlynol.<br><br>**Beth yw eich statws cyflogaeth?**<br>Staff - rhan amser neu amser llawn<br>Ar gytundeb cyfnod penodol<br>Llawrydd<br><br>**Beth yw lefel eich swydd? (mae hyn yn seiliedig ar lefelau o fewn ein strwythur)**<br>Uwch Reolwr<br>Rheolwr Canol / Is<br>Ddim yn Rheolwr<br>Well gen i beidio dweud<br><br>**Beth yw maes eich gwaith? (mae'r isod yn seiliedig ar adrannau sy'n bodoli o fewn y cwmni)**<br>Swyddfa'r Prif Weithredwr<br>Swyddfa Bwrdd S4C<br>Cyllid<br>Cyfreithiol a Materion Busnes - Cyfreithiol, Masnachol, Materion Busnes ac Adnoddau Dynol<br>Technegol ac Archif<br>Gwasanaethau Tŷ - Derbynfa a Chyfleusterau<br>Cyfathrebu - Y Wasg, Gwifren, Partneriaethau, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>Digidol a Marchnata - Cyflwyno, Hyrwyddo, Delwedd a Brand, Gwefan a'r Cyfryngau Cymdeithasol<br>Cynnwys - Comisiynu, Amserlennu, Rheoli Cynnwys, Is-deitlo a Newyddion<br>Ymchwil Cynulleidfa<br>Well gen i beidio dweud |
| **7a) A ddylai Ofcom gasglu data amrywiaeth yn ôl gwlad a rhanbarth?**<br>**7b) Os dylai, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni ofyn y cwestiwn hwn er mwyn ein helpu i adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?** | Cyfrinachol? – N<br><br>7a) Dylai.<br><br>7b) Gwybodaeth cod post ar gyfer y gartref a'r gweithle. |

| | |
|---|---|
| **7c) Os ydych chi'n ddarlledwr, rhowch wybodaeth am y data rydych chi'n ei gasglu ar hyn o bryd am leoliad daearyddol eich gweithlu.** | 7c) Dydyn ni ddim ar hyn o bryd, ond mae dealltwriaeth sylfaenol bod rhan helaeth mawr o'n staff, os nad pawb, yn byw yng Nghymru. |
| **8a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom gasglu data trawstoriadol?**<br>**8b) Os ydych, sut dylem ni ofyn y cwestiwn hwn er mwyn ein helpu i adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?**<br>**8c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n sefydliad casglu data arall, rhowch wybodaeth am ba ddata trawstoriadol rydych chi'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn eich sefydliad.** | Cyfrinachol? – N<br><br>8a) Ydw.<br><br>8b) Dim yn siwr o hyn o gwbl i fod yn onest. Byswn i'n gwerthfawrogi arweiniad drwy gwaith Ofcom.<br><br>8c) n/a |
| **9a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid ac ehangu'r meincnodau mae'n eu defnyddio?**<br>**9b) Os ydych, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid ein meincnodau er mwyn ein helpu i adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?**<br>**9c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n meincnodi data ar hyn o bryd (yn enwedig mewn perthynas â chefndir economaidd-gymdeithasol ac amrywiaeth mewn rhanbarthau daearyddol gwahanol).** | Cyfrinachol? – N<br><br>9a) Rwy'n credu dylai fod meincnodau ychwanegol, yn arbennig os bydd mwy o sylw i ranbarthau.<br><br>9b) Byddai meincnodau rhanbarthol/cenedlaethol/lleol yn ddefnyddiol dros ben wrth ystyried sut mae darlledwyr Prydeinig yn gwneud.<br><br>9c) Rydym yn defnyddio data o Lywodraeth Cymru i wneud hyn yn bennaf, ond rydym yn ddibynnol iawn ar y diweddariad cyfrifiad nesaf ar gyfer ffigyrau mwyaf diweddar. |
| **Oes gennych chi unrhyw farn am agweddau eraill ar arferion casglu data nad ydym wedi'u hystyried yn y Cais hwn am Fewnbwn?** | Cyfrinachol? – Y / N<br><br>Dydyn ni heb o reidrwydd diweddaru ein cwestiynau ni at eleni pan ymateb yma, felly efallai bydd mân newid i'r rhain (ond fydd dim newid sylweddol).<br><br>Dw i wedi cyfeirio ychydig o weithiau at gynnwys opsiynau 'prefer to self-describe'/'free text' ond yn deall gall fod hyn yn anodd ar gyfer ddibenion casglu data penodol Ofcom. |

Rydym yn croesawu ymatebion yn Gymraeg ac ni fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol nag ymatebion ag anfonwyd yn Saesneg.